**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR

# SPECIAL MEETING OF THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 24 IONAWR 2013**

**1.00pm, THURSDAY, 24 JANUARY 2013**

Lleoliad / Location

**Siambr Arfon/Chamber,**
**Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices,**
**Penrallt,**
**Caernarfon**

***(*Nodwch y lleoliad ogydd/*Please note venue)***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Gwyn Parry Williams**

**(01286) 679665**

**gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 16/01/13)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

16 Ionawr/January 2013

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR GWYNEDD – 24 IONAWR 2013**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod arbennig o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **24 IONAWR 2013 YN SIAMBR ARFON, SWYDDFA'R CYNGOR, PENRALLT, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**SPECIAL MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 24 JANUARY 2013**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a special meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **24 JANUARY 2013 in** the **ARFON CHAMBER, COUNCIL OFFICES, PENRALLT, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,

Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Arfon
Annibynnol/Independent – Ystafell Glyder Fawr
Llais Gwynedd – Ystafell Glyder Fach
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Gwyrfai
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

**7. COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Bydd Mr Winston Roddick, Comisynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i roddi cyflwyniad.

**8. DIWYGIO LLES**

Cyflwyniad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Cabinet Amddifadedd ac Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol

**9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **aur**)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **24 Ionawr 2013** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Brian Jones** |
| **TEITL:** | **Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor – DIWEDDARIAD** |
| **AMCAN:** | **Mabwysiadu Cynllun Lleol erbyn 31 Ionawr 2013** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. Cefndir

Mae Deddf Diwygio Lles 2013 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor o 31 Mawrth 2013. O'r dyddiad hwn ymlaen, bydd y cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth i'r dreth gyngor a'r cyllid sydd ynghlwm â hi yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol, bydd rheoliadau 2012 a gymeradwywyd ar 19 Rhagfyr yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru ac mae'r rhain wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno ffurf gyson o gefnogi'r dreth gyngor.

## 2. Rheoliadau Newydd 2013

Ar 17 Ionawr 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd 2013 a fydd yn diwygio'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor a gymeradwywyd ar 19 Rhagfyr 2012. Yn wahanol i reoliadau 2012, **o dan reoliadau diwygiedig 2013 ni fydd yn rhaid i'r holl hawlwyr sy'n derbyn cefnogaeth o dan y cynllun gostyngiad treth cyngor dalu cyfran o'u bil treth cyngor**. Atodir copi o ddatganiad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gyda'r adroddiad hwn.

## 3. Amseru

Cyflwynwyd rheoliadau newydd 2013 o flaen y Cynulliad am 5yh ar 17 Ionawr ac rwyf ar ddeall y cynhelir y bleidlais ddydd Mawrth 22 Ionawr. Er gwaetha'r newid hwyr hwn i'r rheoliadau, **mae'n rhaid i'r Cyngor fwrw ymlaen i fabwysiadu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor** (gan adlewyrchu'r newidiadau) **erbyn 31 Ionawr 2013**. Deallaf nad oes modd newid y dyddiad hwn gan ei fod wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac o ganlyniad bydd y Cyngor llawn yn bwrw ymlaen i ystyried y mater hwn ddydd Iau 24 Ionawr.

Er gwaetha'r amseru hwyr iawn hwn, mae'r newid i reoliadau newydd yn newyddion da gan y bydd yn parhau i ddarparu'r lefelau presennol o gefnogaeth yn 2013/14 i'r hawlwyr (gan dalu 100% o'r Dreth Gyngor os ydynt yn gymwys). Fel ag o'r blaen, mae'r rheoliadau hyn yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 yn unig, a byddant yn cael eu hadolygu i ystyried newidiadau pellach cyn 2014/15.

4. **Goblygiadau Ariannol**

Bydd y newidiadau'n cynyddu'r lefel uchaf o gefnogaeth y gall hawlwyr cymwys ei derbyn o 90% i 100%. Cefnogir cost ychwanegol y newid hwn gyda £22 miliwn ychwanegol (cyfanswm i'w rannu rhwng y 22 Cyngor yng Nghymru). Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r £22m ychwanegol hwn, sy'n ymdrin â'r 10 y cant gwreiddiol o doriad yn y ddarpariaeth ariannol fel y cyfrifwyd gan Lywodraeth y DU. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn lleihau'r Grant Trosiannol cysylltiedig £2 filiwn. Bydd y grant hwn yn cael ei leihau o £4.6m, gyda'r £2.6m sy'n weddill (tua £118,000 i bob awdurdod lleol yn ôl pob tebyg) yn bennaf i dalu am newidiadau i TG, gan na fydd angen y gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau cynghori o dan gyfundrefn hawl llawn.

5. **Mân Newidiadau Technegol**

Bydd rheoliadau diwygiedig 2013 hefyd yn adlewyrchu peth mân newidiadau technegol, yn cynyddu rhai ffigyrau penodol a ddefnyddiwyd o fewn rheoliadau 2012 i gyfrifo hawl i ostyngiad, a hefyd yn cywiro camgymeriad bychan yn rheoliadau 2012.

6. **Prosiect i Liniaru Effeithiau Diwygio Lles**

Bydd y newid hwn i reoliadau newydd 2013 hefyd yn cael effaith ar brosiect y Cyngor i liniaru effeithiau'r cynigion gwreiddiol. Bydd mesurau presennol i godi ymwybyddiaeth yr hawlwyr, ayb, yn cael eu hailystyried a'u diwygio gyda'r prosiect bellach yn canolbwyntio ar reoli'r problemau gweddilliol, megis gostyngiadau mewn budd-dal tai i gartrefi wedi'u 'tanfeddiannu' ("treth ystafelloedd gwely") o fis Ebrill 2013, cyflwyno 'Credyd Cynhwysol' (a fydd yn raddol ddisodli budd-dal tai o fis Hydref 2013) a pharatoi ar gyfer pa bynnag Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fydd mewn grym yn 2014/15.

7. **Effaith ar Argymhellion**

Effaith fechan iawn y mae'r newid hwn yn ei chael ar yr argymhellion i'r Cyngor llawn. Fel y nodwyd ym mhwynt 9.1 yn yr adroddiad gwreiddiol, ARGYMHELLIR i'r Cyngor fabwysiadu **Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (yn hytrach na 2012)**. Mae'r argymhellion sy'n ymwneud ag elfennau dewisol, fel y cyflwynwyd o dan 9.2 yn yr adroddiad gwreiddiol, yn aros yr un peth, er mwyn adlewyrchu'r lefelau presennol o gefnogaeth o dan y cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor.

**Atodiad i'r adroddiad o dan eitem 9 i'r Cyngor llawn 24/01/13**

# CANLYNIADAU I'R YMGYNGHORIAD
# CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH CYNGOR

## 1. Cyflwyniad a chyd-destun

O Ebrill 2013 mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gostwng y cyllid sydd ar gael ar gyfer Budd-dâl Treth Cyngor o 10%, ac mae cynllun cyfredol Budd-dâl Treth Cyngor yn cael ei ddiddymu.

Mae'r cynllun newydd yn cynnwys rhai elfennau dewisol penodol a all Awdurdodau eu cynnwys o fewn y cynllun, ac mae'n ofynnol i oll Awdurdodau ymgynghori gyda rhai allweddol sydd gan ddiddordeb ynglŷn â'r elfennau hyn.

Cyflwynir yma grynodeb o'r ymatebion yn unol â'r addewid ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad o ddosbarthwyd gyda rhaglen cyfarfod 24/01/2013 y Cyngor llawn.

Cofier, wrth gwrs, fod yr ymgynghori yma ar sail y cynllun / rheoliadau gwreiddiol, ac wedi cau ar 14/01/2013, cyn datganiad y Gweinidog ar 17/01/2013. Felly, cyflwynir y dadansoddiad canlynol er gwybodaeth, gyda golwg ar baratoi ar gyfer 2014/15.

## 2. Methodoleg

Casglwyd y wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Rhagfyr 2012 a 14 Ionawr 2013. Gallai'r cyhoedd gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gwblhau arolwg ar-lein ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio meddalwedd LimeSurvey neu drwy ffonio ag gwneud cais am gopi papur o'r holiadur.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr yn ymwneud a'i;


- dealltwriaeth o'r newidiadau sydd ar y gweill
- eu barn am y newidiadau hyn, hynny yw, a ydynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r newidiadau
- eu barn am y meysydd ble ceir disgresiwn lleol i'r Cyngor

## 3. Prif Ganfyddiadau

Cafwyd cyfanswm cronedig o 62 o ymatebion i'r holiadur a llinwydd ar gyfer yr ymgynghoriad. Derbyniwyd 58 o ymatebion electroneg a 4 o ymatebion ar bapur.

Fel y gwelir yn Ffigwr 3.1 mae bron i dri chwarter (72.6%, N = 45) o’r ymatebwyr yn nodi eu bod yn deall sut y cafodd y newidiadau i Gynllun Treth Cyngor eu cyflwyno. Ar y llaw arall nododd bron i 1 o bob 5 (19.4%, N = 12) nad ydynt yn deall sut cafodd y newidiadau eu cyflwyno. Ni dderbyniwyd ymateb gan 8.1% (N = 5).


**Ffigwr 3.1: A ydych yn deall sut y cafodd y newidiadau i Gynllun Treth Cyngor eu cyflwyno, drwy ddatganoli'r cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru a lleihau'r cyllid sydd ar gael?**




N = 62

Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn anghytuno’n gryf (35.5%, N = 22) gyda’r rheoliadau drafft sydd wedi eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i greu cynllun cenedlaethol, gweler Ffigwr 3.2.


**Ffigwr 3.2: Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion yn y rheoliadau drafft i greu cynllun cenedlaethol. Ar y cyfan, mae'r rheolau cymhwyster yn debyg i Fudd-dal Treth Cyngor, ar wahân i'r pwyntiau a nodir yn 3 a 4 isod. Beth yw'ch barn chi am hyn? Rhowch sgôr o 1 i 5.**




N = 62

Mae Ffigwr 3.3 yn dangos fod hanner yr ymatebwyr (48.4%, N = 30) yn anghytuno'n gryf gyda rheoliadau drafft Llywodraeth Cymru fyddai'n golygu y byddai pawb yn talu o leiaf 10% o'u biliau Treth Cyngor.


**Ffigwr 3.3: Mae rheoliadau drafft Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r Gostyngiad Treth Cyngor uchaf ellir ei ganiatáu yw 90% o Dreth Cyngor gros ar gartref, felly bydd pawb, ar ôl tynnu'r Gostyngiad, yn talu o leiaf 10% o'u biliau Treth Cyngor. Beth yw'ch barn chi am hyn? Rhowch sgôr o 1 i 5.**




N = 62

Mae Ffigwr 3.4 yn cyfleu teimladau'r ymatebwyr am ddiddymu'r ad-daliad ail oedolyn fyddai'n effeithio ar 89 o bobl yng Ngwynedd. Nododd dros chwarter o'r ymatebwyr (27.4%, N = 17) fod hyn yn annheg iawn a nododd 12.9% (N = 8) ei fod yn annheg. Ar y llaw arall, nododd 11.3% (N = 7) fod hyn yn deg a 8.1% (N = 5) fod hyn yn deg iawn. Dylid nodi y derbyniwyd cyfradd uchel o 25.8% (N = 16) o 'ddim ateb' i'r cwestiwn hwn.

**Ffigwr 3.4: Mae'r rheoliadau drafft yn nodi caiff yr ad-daliad ail oedolyn ei ddiddymu o dan y cynllun newydd. O ddiddymu'r gostyngiad hwn, ni fydd 89 o gwsmeriaid yng Ngwynedd yn gymwys mwyach i gael cymorth o fis Ebrill 2013. Beth yw'ch barn chi am hyn? Rhowch sgôr o 1 i 5.**




N = 62


Gofynnwyd i'r ymatebwyr pam eu bod yn nodi fod hyn yn annheg neu'n deg. Derbyniwyd 26 o sylwadau ysgrifenedig, sydd ar gael pe wneir cais.

Rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr nodi eu sylwadau am unrhyw agwedd o gynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gostyngiadau Treth Cyngor. Derbyniwyd 27 o sylwadau ysgrifenedig, sydd ar gael pe wneir cais.

Symudwyd ymlaen i ofyn cyfres o gwestiynau am y meysydd mae gan y Cyngor ddisgresiwn lleol drostynt.

Fel y gwelir yn Ffigwr 3.5, nododd dros hanner yr ymatebwyr (54.8%, N = 34) eu bod yn cytuno gyda chynnig y Cyngor i gadw'r cyfnod safonol o bedair wythnos ar gyfer taliadau estynedig. Nododd 9.7% (N = 6) o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno gyda'r cynnig yma. Dylid nodi y derbyniwyd cyfradd uchel o 35.5% (N = 22) o 'ddim ateb' i'r cwestiwn hwn.

**Ffigwr 3.5: Y gallu i gynyddu'r cyfnod safonol o 4 wythnos ar gyfer taliadau estynedig a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, a hynny pan fyddant wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos. Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r cyfnod safonol o bedair wythnos ar gyfer taliadau estynedig, heb ei newid. A ydych yn credu bod hyn yn rhesymol?**




N = 62


Gofynnwyd cwestiwn pellach i'r chwech o'r ymatebwyr a nododd 'nac ydw'; *"Pa gyfnod fyddai'n rhesymol yn eich barn chi?"* Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd.

**Tabl 1.1: Pa gyfnod fyddai'n rhesymol ar gyfer taliadau estynedig a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith?**

| **Cynnig** | **Nifer ymatebwyr** |
|---|---|
| Dim taliad estynedig | 1 |
| Pythefnos | 0 |
| 6 wythnos | 2 |
| Arall | 1 – cynnig o 4 wythnos |
| Dim ateb | 2 |
| **Cyfanswm** | 6 |

Mae Ffigwr 3.6 yn dangos fod 58.1% (N = 36) o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn rhesymol i barhau i ddiystyru'r incwm o Bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Rhyfel Gweddwon, tra nododd 12.9% (N = 8) eu bod yn anghytuno gyda'r cynnig. Dylid nodi y derbyniwyd cyfradd uchel o 29.0% (N = 18) o 'ddim ateb' i'r cwestiwn hwn.


**Ffigwr 3.6: Disgresiwn i ddiystyru rhan o swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel neu'r Pensiynau Rhyfel Gweddwon, neu'r swm cyfan, wrth gyfrifo incwm. Mae'r Cyngor yn cynnig parhau i ddiystyru'r holl incwm hwn, gan ei fod wedi'i ddiystyru ar hyn o bryd ar gyfer Budd-dal Treth Cyngor. A ydych yn credu fod hyn yn rhesymol?**




N = 62

Gwelir fod mwyafrif yr ymatebwyr (67.7%, N = 42) yn cytuno gyda chynnig y Cyngor i gadw at y cyfnod statudol o dri mis ar gyfer ôl-ddyddio dyfarniadau Gostyngiadau Treth Cyngor. Ar y llaw arall 1.6% (N = 1) wnaeth nodi eu gwrthwynebiad. Dylid nodi y derbyniwyd cyfradd uchel o 30.6% (N = 19) o 'ddim ateb' i'r cwestiwn hwn.

**Ffigwr 3.7: Y gallu i ôl-ddyddio dyfarniadau Gostyngiad Treth Cyngor ar gyfer cwsmeriaid oed gwaith am yn hirach na'r cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad. Mae'r Cyngor yn cynnig cadw at y cyfnod statudol o dri mis o ran y cyfnod ôl-ddyddio mwyaf posib. A ydych yn credu bod hyn yn rhesymol?**




N = 62

Gofynnwyd i'r un person a atebodd 'nac ydw' (gweler Ffigwr 3.7) *"Pa gyfnod fyddai'n rhesymol yn eich barn chi?"* Ni dderbyniwyd ymateb.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**Teitl** **Trefniadau cymorth y Dreth Gyngor**

**Dyddiad** **17 Ionawr 2013**

**Gan** **Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Mae Llywodraeth y DU yn rhoi rhaglen eang a sylweddol ar waith er mwyn diwygio'r gyfundrefn les. Fel rhan o'r rhaglen hon, bwriedir rhoi terfyn ar system Budd-dal y Dreth Gyngor ar 1 Ebrill 2013 a throsglwyddo'r cyllid i Gymru er mwyn sefydlu trefn newydd i roi cymorth tuag at filiau'r dreth gyngor. Roedd trosglwyddo'r cyllid yn cynnwys gostyngiad o 10 y cant a oedd wedi'i seilio ar amcangyfrif Llywodraeth y DU o wariant ar gyfer cyllideb 2013-14.

Ar 19 Rhagfyr 2012, pasiodd y Cynulliad reoliadau a fyddai'n rhoi trefniadau newydd ar waith i gynorthwyo'r rhai a fydd yn talu'r dreth gyngor yn 2013-14. Roedd y Rheoliadau *(Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012* a *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012)* yn nodi mai 90 y cant fyddai lefel uchaf y cymorth y gallai hawlwyr cymwys ei gael. Roedd hyn yn adlewyrchu'r diffyg yn y cyllid a drosglwyddir gan Lywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau pryderu fwyfwy am effaith ymarferol y gostyngiad yn y cymorth i hawlwyr. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i effaith diwygiadau lles eraill Llywodraeth y DU ddod yn gliriach, er enghraifft, wrth i bobl gael gwybod am effaith uniongyrchol y 'dreth ystafelloedd gwely'. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf i osod terfyn o 1 y cant ar y cynnydd mewn budd-daliadau wedi gwaethygu'r sefyllfa i rai o'n pobl fwyaf agored i niwed. Ar wahân i'r gostyngiadau eraill sy'n deillio o'r rhaglen i ddiwygio'r gyfundrefn les, bydd hyn yn golygu gostyngiad incwm pellach, mewn termau real, i'r grwpiau hyn o bobl.

Ar sail hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynyddu lefel uchaf y cymorth o'i lefel bresennol o 90 y cant i 100 y cant. Mae hyn yn golygu y bydd hawlwyr yn derbyn yr holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo ar gyfer biliau'r dreth gyngor. Yn wahanol i Reoliadau 2012, ni fydd raid i'r holl hawlwyr sy'n derbyn cymorth dalu cyfran o'u biliau. Bydd y Llywodraeth yn darparu £22 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol, er mwyn

iddynt weithredu’r newid. Llwyddwyd i ddod o hyd i’r cyllid hwn gan fod y Llywodraeth wedi rheoli ei harian yn ofalus ac wedi gwneud defnydd doeth o’i chronfeydd wrth gefn a’i chyllidebau adrannol.

Rhaid diwygio’r rheoliadau presennol er mwyn cyflwyno’r newid hwn. Bydd y Llywodraeth hefyd yn achub ar y cyfle i godi rhai trothwyon ariannol yn y rheoliadau presennol a gwneud ychydig o fân addasiadau eraill, a hynny’n rhannol mewn ymateb i gymorth defnyddiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wrth iddo graffu arnynt cyn y Nadolig.

Rhaid i awdurdodau lleol gwrdd â’r amserlen ar sawl achlysur yn y cyfnod cyn cyhoeddi biliau’r dreth gyngor, gan gynnwys yr angen i fabwysiadu cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr. Mae’n hanfodol, felly, fod y diwygiadau yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl. Os nad oes modd llunio’r rheoliadau diwygiedig mewn pryd, gallai awdurdodau orfod wynebu costau sylweddol iawn ar gyfer ailgyflwyno biliau’r dreth gyngor.

Mae’r Llywodraeth wedi gosod rheoliadau diwygio heddiw a bydd yn ceisio’u trafod yn y Cynulliad ddechrau’r wythnos nesaf, gyda chefnogaeth y Llywydd a’r Pwyllgor Busnes. Yn sgil yr amseriad, bydd hyn yn golygu atal y Rheolau Sefydlog. Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y Cymal Machlud a ychwanegwyd at y Rheoliadau ym mis Rhagfyr a bydd y Rheoliadau diwygiedig mewn grym yn ystod 2013-14 yn unig.

Bydd y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i’r Rheoliadau yn gwella cryn dipyn ar sefyllfa ariannol yr aelwydydd agored i niwed hynny a fyddai wedi wynebu biliau uwch ar gyfer y dreth gyngor, yn ogystal â’r rheini a fyddai wedi gorfod cyfrannu at filiau’r dreth gyngor am y tro cyntaf.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **24 Ionawr 2013** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Brian Jones** |
| **TEITL:** | **Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor** |
| **AMCAN:** | **Mabwysiadu Cynllun Lleol erbyn 31 Ionawr 2013** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno’r trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Gostyngiad gyda’r Dreth Gyngor newydd i Aelodau, ac i ystyried unrhyw elfennau disgresiwn efallai y bydd Aelodau’n dymuno eu cymeradwyo.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae gofyn i’r Cyngor Llawn benderfynu p’un ai i fabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 ai peidio erbyn 31 Ionawr 2013.

2.2 Mae’r Rheoliadau’n cynnwys rhai elfennau disgresiwn y gallai awdurdodau eu cynnwys o fewn y Cynllun.

2.3 Bydd methu â mabwysiadu’r cynllun ‘lleol’ erbyn 31 Ionawr 2013 yn arwain at Reoliadau’r Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 yn cael eu gosod ar yr Awdurdod.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

3.1 O fis Ebrill 2013, mae Llywodraeth y DU yn gostwng cyllid Budd-dal y Dreth Gyngor (B-DTC) o 10% a bydd y Cynllun B-DTC cyfredol yn cael ei ddiddymu.

3.2 Gwahaniaethau prin yn unig a geir rhwng y Cynllun B-DTC cyfredol a’r Rheoliadau newydd. Mae’r tri prif wahaniaeth fel a ganlyn:

- Dan y Cynllun B-DTC cyfredol ble mae incwm yr hawliwr yn rhy uchel i dderbyn B-DTC , ac os oes ganddynt oedolyn arall ag incwm isel yn byw yn yr eiddo, gallant wneud hawliad am Ad-daliad Ail Oedolyn ac yn derbyn disgownt o hyd at 25%. Bellach, mae’r cynllun wedi cael ei dynnu o’r Rheoliadau

newydd ac ni fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2013. Ar hyn o bryd, mae 88 o aelwydydd yng Nghyngor Gwynedd yn gymwys am yr ad-daliad hwn.

- Mae'r Cynllun B-DTC cyfredol yn cyfrifo'r hawl i fudd-dal ar 100% o atebolrwydd yr hawlwyr i dalu'r Dreth Gyngor, ond o 1 Ebrill 2013 bydd yr hawl i Gymorth gyda'r Dreth Gyngor yn cael ei gyfrifo ar 90% o'r atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor. Ar hyn o bryd, mae 11,250 o aelwydydd yng Ngwynedd yn derbyn cymorth tuag at eu Treth Gyngor, gyda 8,350 o'r aelwydydd hynny yn derbyn cymorth 100%. O 1 Ebrill 2013, bydd rhaid i'r 8,350 aelwyd hyn, sy'n derbyn y cymorth 100% ar hyn o bryd, wneud trefniadau i dalu'r 10% a fydd yn ddyledus i'r Awdurdod. Mewn perthynas â hawlwyr rhannol Budd-dal y Dreth Gyngor gallai'r gostyngiad fod yn fwy na 10% oherwydd effaith y taprau a ddefnyddir wrth gyfrifo'r hawliau budd-dal.

- Ar hyn o bryd, mae hawlwyr oed gwaith sydd â phartneriaid oed pensiwn yn cael eu hasesu dan reolau oed pensiwn. O Ebrill 1 2013, byddant yn cael eu hasesu dan reolau pobl oed gwaith.

3.3 Darparwyd pwerau galluogi gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 i roi cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru (LlC) wneud rheoliadau mewn cysylltiad â Chynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd. Mae LlC eisoes wedi cytuno ar gynllun fframwaith wedi'i diffinio'n genedlaethol a fydd yn darparu cefnogaeth ar lefel gyson i bob hawliwr ledled Cymru. Felly, ni fydd unrhyw grwpiau yn cael eu gwarchod yng Nghymru a bydd pob hawliwr budd-dal presennol ac yn y dyfodol yn gweld gostyngiad yn eu hawl i gymorth gyda'r Dreth Gyngor.

3.4 Mae dwy set o Reoliadau wedi cael eu paratoi gan LlC a'r cyntaf yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 y mae gofyn i Awdurdodau eu mabwysiadu cyn 31 Ionawr 2013. Yr ail set yw Rheoliadau'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 y mae'n rhaid i Awdurdodau Cymru eu gweithredu os ydynt yn methu â mabwysiadu'r Cynllun Rhagnodedig y cyfeiriwyd ato uchod. Mae'n rhaid i'r ddwy set o reoliadau gael eu gweithredu'n llawn erbyn 1 Ebrill 2013.

3.5 Y gwahaniaeth rhwng y ddwy set o Reoliadau yw bod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 yn cynnwys y pedair elfen disgresiwn a ganlyn:

(i) Yn cynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan reoliadau B-DTC. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2012/13, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio £30,000 i'r Awdurdod mewn perthynas â

hawliau Budd-dal y Dreth Gyngor. Mae'r swm hwn eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft.

**Mae'r adroddiad hwn yn argymell bod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau [argymhelliad 9.2.(i)].**

(ii) I gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ol i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.
Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y mwyafswm y gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir fod cost 4 wythnos safonol o gyfnod estyngedig am 2012/13 yn £20,000

**Mae'r adroddiad hwn yn argymell peidio â newid y pedair wythnos o gyfnod estynedig fel a welir o fewn y Cynllun Rhagnodedig (argymhelliad 9.2.(ii)).**

(iii) Cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y mwyafswm y gallant gael eu hymestyn iddo.

Amcangyfrifir mai cost caniatau ol ddyddio budd-dal treth cyngor ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gwaith am 2012/13 yw £28,000.

Mae'r Cynllun budd-dal presennol yn caniatáu i bensiynwyr ôl-ddyddio i hyd at gyfnod o dri mis yn unig, a chwe mis ar gyfer pobl oed gwaith. Mae'r Cynllun Rhagnodedig newydd o fis Ebrill 2013 yn caniatáu i bensiynwyr a phobl oed gwaith ôl-ddyddio hyd at fwyafswm o dri mis yn unig. Y rheswm am hynny yw er mwyn cael dull cyson rhwng y ddau fath o hawlwyr ac i leihau costau'r Cynllun.

**Mae'r adroddiad hwn yn argymell na ddylid cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a phobl oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Rhagnodedig**
**[Argymhelliad 9.2.(iii)].**

(iv) Darparu mwy na'r lleiafswm o wybodaeth ragnodedig fel rhan o'r weithdrefn hysbysu penderfyniadau i hawlwyr, os yw'n briodol. Gall hyn fod yn fater datblygu yn seiliedig ar y profiad o'r Cynllun newydd. **[Argymhelliad 9.2.(iv)]**.

## 4. YMGYNGHORI

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y prif gynllun ac wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol, *Darparu Cymorth Gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru* ar 6 Chwefror 2012.

4.2 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol dechnegol arall ar 21 Medi 2012, ar ddrafft Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn). Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 17 Hydref 2012.

4.3 Ysgrifennodd Cyngor Gwynedd at bawb a effeithiwyd gan y newidiadau ar 18 Rhagfyr i godi ymwybyddiaeth ac estyn gwahoddiad am sylwadau ar y cynllun arfaethedig. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 14 Ionawr a darperir crynodeb o'r ymatebion cyn i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r cynllun.

## 5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

5.1 O ganlyniad i ostyngiad yn yr arian gan Lywodraeth y DU tuag at Fudd-dal y Dreth Gyngor a'r uchafswm cyfrifoldeb o 90% a gynhwysir o fewn Rheoliadau pennu hawl hawlwyr unigol i dderbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, amcangyfrifir ar hyn o bryd y gallasai fod diffyg yng ngwir wariant Cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn 2013/14 a gaiff ei ariannu gan yr Awdurdod (gweler 6.2 isod).

5.2 Rhaid i system TGCh y Dreth Gyngor gael ei diweddaru sy'n costio £59k.

## 6. RISGIAU

6.1 Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor yn golygu mai cynllun yn seiliedig ar drefn y Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor oedd yr unig opsiwn realistig a oedd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru.

6.2 Gall y newidiadau i'r system Budd-dal yn y Dreth Gyngor arwain at ddiffyg sylweddol. Talodd y Cyngor £8.9m yn 2011/12. Pe bai cynnydd cyson mewn llwyth achosion rhagwelir gall y gwariant fod tua £9.2m erbyn 2013/14. Roedd y setliad terfynol yn cynnwys swm o £8.1m tuag at gost y cynllun newydd. Daw hyn i ddiffyg o thua £1.1m, a gall y Cyngor ond bilio preswylwyr am y swm sy'n gyfwerth â £900k o ganlyniad i'r uchafswm o 10% sydd wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth. Felly, gall y Cyngor golli tua £200k mewn incwm (yn amodol ar ffactorau economaidd).

6.3 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i wneud ymdrechion rhesymol i gasglu'r dreth Gyngor gan unrhyw un a bennir eu bod yn gymwys i dalu a byddent yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd modd casglu cyfran o'r £900k hwn ac felly bydd yn rhoi mwy o bwysau ar ddarpariaeth dyledion drwg y Cyngor. Bydd cynnydd mewn camau gweithredu adfer, ac felly bydd yn ofynnol i gynnal adolygiad o adnoddau staff trethiant lleol cyfredol. Bydd hefyd yn ofynnol i adolygu adnoddau staff Budd-dal.

6.4 Rydym hefyd yn debygol o weld mwy o alwadau ymholi i'r Adran Refeniw, canolfannau cynghori dyled / rheolaeth ariannol a lles. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Newid i Fudd-daliadau Lles i gydlynu gweithgareddau a sicrhau bod preswylwyr yn cael y gefnogaeth berthnasol. Yn ogystal â'r holl adrannau Cyngor perthnasol, cynrychiolir CAB, Age Cymru, Shelter, Tai Eryri, Tai Clwyd, Tai Gogledd Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill.

6.5 Mae LlC wedi cynnig £4.6m ar sail genedlaethol i gynorthwyo gyda'r costau trosiannol ond nid oes manylion wedi'u rhyddhau eto ynglŷn â sut i gael mynediad at yr arian hwn.

6.6 Bydd mwy o bwysau yn cael ei roi ar staff yn y Gwasanaeth Refeniw a Budd-dal i egluro'r newidiadau hyn i drethdalwyr ac i gasglu tâl am y symiau ychwanegol hynny sy'n daladwy o fis Ebrill 2013.

6.7 Bydd yr angen i gasglu'r dreth gyngor gan yr holl hawlwyr budd-daliadau yn golygu costau casglu uwch, ond bydd Polisi Adennill Dyledion y Cyngor yn cael ei adolygu er mwyn gallu casglu gymaint o'r taliadau â phosib heb ddefnyddio beilïod pan na thelir y taliadau ar amser.
.

## 7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar sail genedlaethol ar ei newidiadau arfaethedig i system Budd-dal y Dreth Gyngor.

7.2 Mae Gwynedd hefyd wedi cynnal astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol, ond rhaid cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn a'r baich yn disgyn ar yr holl grwpiau h.y. er gwaethaf darganfyddiadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol nid oes unrhyw ddisgresiwn o fewn y cynllun rhagnodedig i warchod grwpiau bregus sydd wedi'u hadnabod yng Ngwynedd.

## 8. CYHOEDDI

8.1 Cyhoeddir Cynllun Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor ar wefan y Cyngor a bwriedir rhoi gwybod i'r holl hawlwyr budd-daliadau cyfredol yn uniongyrchol am y Cynllun newydd.

## 9. ARGYMHELLION

9.1 ARGYMHELLIR i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012.

9.2 Os penderfynir bod y Cyngor yn mabwysiadu'r cynllun rhagnodedig, gwneir yr ARGYMHELLION a ganlyn mewn perthynas â'r pedair elfen disgresiwn:

(i) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.

(ii) Na ddylid cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.

(iii) Na ddylid cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.

(iv) Gwella'r broses ar gyfer rhoi gwybod i hawlwyr am benderfyniadau uwchlaw'r gofynion sylfaenol a nodwyd yn y Rheoliadau, os yw hynny'n briodol.